


# Wrth iddynt ddatblygu

## Fi atat Ti atat Fi

### Beth am 'Chwarae i Ddysgu'?

Anogwch y plant i archwilio'r canlynol:

- Anfon a chasglu pêl, a phob plentyn yn aros yn ei 'ochr/hanner' ef o'r 'ardd'
- Casglu pêl sydd wedi ei rholio neu'i thafliu dan ysgwydd at wal
- Gwthio/llywio gwrthrych yn ôl ac ymlaen at ei gilydd
- Cadw gwrthrych yn yr 'ardd'. Dylent geisio ennill y sgôr uchaf



### Adnoddau

- Marcwyr dros dro/marciau siall
- Bagiau ffa/teganau meddal
- Amrywiaeth o beli, gan gynnwys peli cadu'n heini
- Balŵns
- Amrywiaeth o fatiau, eitemau y gellir eu defnyddio i wthio
- 'Gardd' wedi'i rhannu'n ddau hanner ar gyfer dau blentyn: fy 'ochr/hanner' i a'th 'ochr/hanner' di

### Geiriau allweddol

- Rheolaeth, sgiliau cydsymud
- Rholio, tafliu dan ysgwydd, rhedeg ar ôl, dilyn, codi
- Gwthio, llywio
- Sefyll, eistedd, penlinio, gorwedd
- Cymryd eu tro, cydweithio
- Adlamu



### Cwestiynau

- Pa bêl sydd hawsaf i'w rheoli?
- Pa bêl rydych chi'n mwynhau chwarae â hi fwyaf?
- Beth sy'n digwydd wrth i'r bêl adlamu/bounsio oddi ar y wal?
- Ble mae angen i chi fod i gasglu/codi'r bêl yn gyflym?

### Cyfleoedd i:

- ddatblygu rheolaeth gynyddol ar symudiadau mawr y corff
- anfon a chael gwrthrych
- adnabod a defnyddio gwahanol ddarnau o offer wrth chwarae gydag eraill

### Diogelwch a threfn

Sicrhewch:

- bod yr arwyneb yn lân ac yn rhydd o rwystrau
- bod y plant yn gweithio mewn 'gerddi'

## A allwch chi weld y plentyn?

- Yn datblygu rheolaeth gynyddol ar symudiadau mawr y corff?
  - Yn anfon ac yn cael gwrthrych?
- Yn adnabod ac yn defnyddio gwahanol ddarnau o offer wrth chwarae gydag eraill?

weithiau

gan amlaf

### Anogwch y plentyn i:

- ymarfer pob agwedd cyn chwarae gêm
- trafod pa wrthrychau y gall eu rhoio/taflu/guthio, cyn iddo ddechrau
- rhedeg a chodi/casglu gwrthrych llonydd, cyn ceisio casglu pêl sy'n symud
- chwarae mewn ardal fawr
- rhoio pêl at blentyn mwy medrus neu ymarferwr sy'n eistedd â'i goesau ar led

### Anogwch y plentyn i:

- archwilio anfon a chael mewn ystumiau eraill lle gall gadw cydbwysedd
- chwarae mewn ardal lai o faint
- llunio rheolau ynghylch sut a ble mae'n rhaid rhoio/taflu'r bêl cyn y gellir ei chodi
- datblygu system sgorio

### Cyfleoedd campus

- Datblygiad Mathemategol: Rhif – cyfrifo mewn amrywiaeth o ffyrdd
- Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol: Datblygiad cymdeithasol – yn barod i gymryd eu tro, yn rhannu teganau a deunyddiau, ac yn feimlo'n hyderus i gydchwarae a chydweithio ag eraill